# Syniadau Siop

## Amcanion dysgu:

I blant a theuluoedd weld nad oes angen taflu pethau sydd dal â llawer o fywyd ar ôl ynddynt.

Gall rhannu fynd yn bell o ran buddion cymunedol ac amgylcheddol, tra hefyd yn arbed arian.



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Arbed ac Ailddefnyddio

## Gwybodaeth ymarferydd -

Mae gan bopeth rydym ni'n ei brynu a'i ddefnyddio ôl-troed effaith.

Mae gwneud dillad, teganau a llyfrau yn arwain at gynhyrchu nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid mewn ffatrïoedd, sy'n cyfrannu at newid hinsawdd.

Mae teganau a dillad yn aml yn dibynnu ar olew sy'n cael ei dynnu o'r ddaear i wneud y plastig neu'r polyester. Gall dillad arwain at lygredd dŵr difrifol oherwydd y cemegion sy'n cael eu defnyddio wrth eu trin a'u lliwio. Nid yw'r effaith hon bob amser yn amlwg, felly nid yw'n rhywbeth rydym ni'n meddwl amdano'n aml wrth brynu cynhyrchion newydd.

Mae gallu parhau i ddefnyddio pethau cyhyd â phosibl yn ffordd wych o leihau ein heffaith ar ein planed a'r hinsawdd, ac o arbed rhywfaint o arian hefyd!

## Cyfnewid teganau

Oeddech chi'n gwybod bod tua 8 o bob 10 tegan yn mynd i safleoedd tirlenwi?

Mae llawer ohonynt ond yn cael eu defnyddio am gyfnod byr cyn cael eu taflu i ffwrdd, er eu bod yn dal mewn cyflwr gwych.

Mae cyfnewid teganau yn ffordd hwyliog a syml o newid hynny.
Drwy ddod â theganau ail-law i mewn, gall plant gyfnewid gyda ffrindiau a mynd â rhywbeth "newydd iddyn nhw" adref gyda nhw heb i unrhyw beth fynd yn wastraff. Mae'n gyfle gwych i adnewyddu eu casgliad o deganau, tra hefyd yn dysgu gwers bwysig am ofalu am ein planed. Mae cyfnewid teganau yn helpu plant i weld nad oes rhaid i deganau fod yn newydd sbon i fod yn gyffrous. Mae rhannu ac ailddefnyddio yn rhoi bywyd newydd i bob tegan, yn lleihau gwastraff, yn arbed arian ac yn cadw eitemau da allan o safleoedd tirlenwi.

**Nid yw'n dda i'r amgylchedd yn unig - mae hefyd yn ffordd hyfryd o annog rhannu, haelioni a chymuned.**



## Cyfnewid dillad

Mae plant yn tyfu'n gyflym.

Mor gyflym fel eu bod yn tyfu allan o ddillad efallai maen nhw ond wedi eu gwisgo unwaith neu ddwywaith, ac weithiau nid ydynt hyd yn oed wedi cael cyfle i'w gwisgo. O ganlyniad, dim ond am gyfnod byr mae llawer o eitemau hollol dda yn cael eu defnyddio cyn eu taflu i ffwrdd. Mae erthygl gan Emily Jordan yn 2025 yn nodi bod tua 216 miliwn o ddarnau o ddillad plant yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yn y DU bob blwyddyn.

Mae cyfnewid dillad yn ffordd syml a chadarnhaol o newid hynny. Drwy ddod â dillad nad ydynt bellach yn ffitio, gall rhieni rannu gydag eraill a dewis eitemau sy'n newydd i'w plentyn neu frodyr a chwiorydd, heb yr angen i brynu mwy.

Mae'n ffordd ymarferol o ddal i fyny gyda phlant bach sy'n tyfu'n gyflym tra'n lleihau gwastraff.

Nid yw'n dda i'r amgylchedd yn unig - mae hefyd yn ffordd wych o arbed arian, lleihau gwastraff, a gwneud y mwyaf o ddillad sydd dal â llawer o fywyd ar ôl ynddynt.

Mae siopau cyfnewid hefyd yn creu ymdeimlad o gymuned, gan annog teuluoedd i gefnogi ei gilydd wrth wneud dewis mwy cynaliadwy.



# Cyfnewid llyfrau / llyfrgell fenthyca

Mae plant yn tyfu allan o lyfrau yr un mor gyflym ag y maen nhw'n tyfu allan o deganau a dillad. Gall straeon a oedd unwaith yn ffefrynnau eistedd ar silffoedd neu gael eu taflu ffwrdd, er bod ganddynt gymaint i'w gynnig i blentyn arall o hyd.

Mae cyfnewid llyfrau neu lyfrgell fenthyca yn ffordd syml a pharhaol o gadw'r straeon hynny'n fyw.

Drwy ddod â llyfrau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio, gall plant ddewis rhai newydd i fynd adref gyda nhw a'u mwynhau dro ar ôl tro. Boed wedi'i sefydlu yn y lleoliad neu mewn cwpwrdd gwrth-ddŵr yn yr ardal tu allan, gall man llyfrau cyffredin ddod yn rhan reolaidd o fywyd bob dydd.




Mae llyfrgelloedd benthyca a chyfnewidfeydd llyfrau yn cadw llyfrau da mewn cylchrediad am gyfnod hirach ac yn lleihau gwastraff. Maen nhw hefyd yn annog cariad at ddarllen, wrth i blant ddarganfod straeon newydd cyffrous a rhannu eu ffefrynnau gydag eraill.

Nid yw'n dda i'r amgylchedd yn unig. Mae'n adeiladu ymdeimlad o gymuned, yn annog darllen er pleser, ac yn gwneud llyfrau'n hygyrch i bawb.

**Gadewch lyfr, cymerwch lyfr, a gadewch i'r anturiaethau barhau!**

Eco-Tots Cymru

cadwch gymru'n daclus / keep wales tidy

The Moondance Foundation

Arbed ac Ailddefnyddio